

Holiadur Gallu i Weithio

Os hoffech gael yr holiadur hwn mewn Braille, print bras neu sain, ffoniwch Gredyd Cynhwysol ar y rhif sydd ar frig unrhyw lythyrau rydym wedi eu hanfon atoch neu ddefnyddio'ch dyddlyfr ar-lein os oes gennych un i ddweud wrthym beth sydd ei angen arnoch.

Beth sydd angen i chi ei wneud

- Llenwch yr holiadur hwn a'i ddychwelyd i'r Gwasanaeth Ymgynghorol Asesiad Iechyd erbyn y dyddiad ar y llythyr a ddaeth gyda'r holiadur. Bydd y Gwasanaeth Ymgynghorol Asesiad Iechyd yn defnyddio'r wybodaeth a rowch i benderfynu a oes angen i chi ddod i gael asesiad wyneb yn wyneb neu beidio. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i roi'r cymorth gorau y gallwn a thalu'r swm cywir o fudd-dal i chi. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i roi'r cymorth gorau y gallwn a thalu'r swm cywir o fudd-dal i chi.
- Rhaid i chi ei lenwi a'i ddychwelyd i ni erbyn y dyddiad ar y llythyr. Os na fyddwch yn gwneud hyn, efallai byddwn yn penderfynu eich bod yn gallu gweithio.
- Darllenwch yr holiadur hwn yn ofalus a sicrhewch eich bod yn ateb y cwestiynau i gyd yn llawn.
- Ysgrifennwch mewn **inc du** a defnyddiwch LYTHRENNAU BRAS. Gallwch lawrlwytho copi o'r holiadur ar eich cyfrifiadur a'i lenwi. Ewch i www.gov.uk/cymraeg a chwiliwch am **UC50W**.
- Dychwelwch yr holiadur wedi'i lenwi trwy ddefnyddio'r amlen amgaeedig. Nid oes angen stamp arni. **Peidiwch** ag anfon nac ei gymryd i'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith gan y gall hyn oedi'r Gwasanaeth Ymgynghorol Asesiad Iechyd i brosesu'ch asesiad.

Anfonwch **gopïau** o'ch holl wybodaeth feddygol neu unrhyw wybodaeth arall yn ôl gyda'ch holiadur. Nid ydym bob amser yn cysylltu â'ch gweithwyr meddygol proffesiynol felly mae'r wybodaeth hon yn bwysig, a dylai rhoi gwybod i ni sut mae eich anabledd, salwch neu gyflwr iechyd yn effeithio ar sut y gallwch wneud pethau o ddydd i ddydd. Mae rhestr o'r wybodaeth yr ydym yn ei chael yn ddefnyddiol ar **dudalen 5**.

- Anfonwch **gopïau** o unrhyw wybodaeth feddygol neu wybodaeth arall **sydd eisoes gennych**. **Peidiwch** â gofyn neu dalu am wybodaeth newydd nac anfon dogfennau gwreiddiol atom. Ysgrifennwch eich rhif Yswiriant Gwladol ar bob darn o wybodaeth rydych chi'n ei hanfon atom
- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n llenwi'r adran **Amdanoch chi** ar **dudalen 2** yn llawn

Os oes angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen, gallwch

- gofyn i ffrind, perthynas, gofalwr neu weithiwr cymorth i'ch helpu
- ffonio Credyd Cynhwysol ar y rhif sydd ar frig unrhyw lythyrau rydym wedi'u hanfon atoch neu ddefnyddio'ch dyddlyfr ar-lein os oes gennych un i ofyn cwestiynau. Peidiwch â mynd i mewn i'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol.

Mewn rhai achosion, gall eich atebion gael eu hysgrifennu i lawr i chi. Gallwch ofyn am gael eich holiadur i'w anfon atoch drwy'r post i wirio.



Os na fyddwch yn llenwi'r holiadur hwn ac anfon yr holiadur hwn i'r Gwasanaeth Ymgynghorol Asesiad Iechyd erbyn y dyddiad ar y llythyr, yna efallai na fydd gennym ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad ac efallai byddwn yn penderfynu eich bod yn gallu gweithio.

Amdanoch chi

Cwblhewch y ffurflen hon mewn INC DU a PHRIFLYTHRENNAU.	
Cyfenw	
Enwau eraill	
Teitl	Mr/Mrs/Miss/Ms/teitl arall
Cyfeiriad	
Cod post	
Dyddiad geni	
Rhif Yswiriant Gwladol (YG)	Llythrennau Rhifau Llythyren
Rhif ffôn y gallwn gysylltu â chi	
Cyfeiriad e-bost, os oes gennych un.	
Ydych chi wedi bod yn yr ysbyty am fwy na 28 diwrnod yn y 12 mis diwethaf? Dywedwch wrthym ba ddyddiadau roeddech yn yr ysbyty. Beth oedd enw'r ysbyty?	Na Ewch i'r cwestiwn nesaf. Ydw O I
Ydych chi wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog? Pa wasanaeth oeddech ynddo? Pa ddyddiad wnaethoch chi adael?	Na Ewch i'r cwestiwn nesaf. Ydw Byddin Y Llynges Frenhinol/ Môr-filwyr RAF
Gawsoch chi eich rhyddhau o'r carchar yn y 6 mis diwethaf? Pa ddyddiad y gwnaethoch adael? Bydd y wybodaeth hon yn ein helpu i ddod o hyd i'ch cofnodion meddygol yn gyflymach. Ni fyddwn yn rhannu neu'n defnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw ddiben arall	Na Ewch i'r cwestiwn nesaf. Do
Ydych chi'n feichiog?	Na Ydw Pryd y disgwylir i'r babi gael ei eni?

Os ydych yn dychwelyd yr holiadur hwn yn hwyr



Os na fyddwch yn llenwi'r holiadur hwn ac yn anfon yr holiadur hwn i'r Gwasanaeth Ymgynghorol Asesiad Iechyd erbyn y dyddiad ar y llythyr hwn, yna efallai na fydd gennym ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad ac efallai byddwn yn penderfynu eich bod yn gallu gweithio.

Ydych chi'n anfon yr holiadur hwn yn ôl yn hwyrach na'r dyddiad y gofynnwyd i chi yn y llythyr amgaeedig?

Na
Ydw Rhowch wybod i ni pam:

Eich Meddyg Teulu neu'ch meddygfa

Dywedwch wrthym am eich Meddyg Teulu. Os nad ydych yn gwybod enw eich Meddyg Teulu, dywedwch wrthym enw meddygfa eich Meddyg. Weithiau bydd angen i ni gysylltu â nhw i ofyn am wybodaeth feddygol neu arall sy'n dweud wrthym sut mae eich anabledd, salwch neu gyflwr iechyd yn effeithio ar eich gallu i wneud pethau o ddydd i ddydd. Nid oes rhaid i ni wneud hyn bob amser, felly mae'n bwysig eich bod yn anfon eich holl wybodaeth feddygol neu wybodaeth arall gyda'r holiadur hwn. **Dylech anfon copïau o wybodaeth feddygol neu wybodaeth arall sydd eisoes gennych yn unig. Peidiwch â gofyn neu dalu am wybodaeth newydd nac anfon dogfennau gwreiddiol atom.** Ysgrifennwch eich rhif Yswiriant Gwladol ar bob darn o wybodaeth rydych yn eu hanfon atom.

Beth yw enw eich Meddyg Teulu neu enw eich meddygfa?

Eu cyfeiriad?

Cod post

Eu rhif ffôn

Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol eraill, gofalwyr, ffrindiau neu berthnasau sy'n gwybod fwyaf am eich anabledd, salwch neu gyflwr iechyd

Rhowch fanylion y gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol, gofalwyr, ffrindiau neu berthnasau sy'n gwybod **fwyaf** am eich anabledd, salwch neu gyflwr iechyd. Dylent wybod yr effaith y mae eich anabledd, salwch neu gyflwr iechyd yn ei chael ar eich gallu i wneud pethau o ddydd i ddydd. Nid ydym yn cysylltu â nhw bob amser, felly mae'n bwysig eich bod yn anfon eich holl wybodaeth feddygol neu wybodaeth arall sydd gennych gyda'r holiadur hwn. **Dylech anfon copïau o wybodaeth feddygol neu wybodaeth arall sydd eisoes gennych yn unig. Peidiwch â gofyn neu dalu am wybodaeth newydd nac anfon dogfennau gwreiddiol atom.** Ysgrifennwch eich rhif Yswiriant Gwladol ar bob darn o wybodaeth rydych yn eu hanfon atom.

Er enghraifft:

- meddyg ymgynghorol neu arbenigol
- seiciatrydd
- nyrs arbenigol, fel Nyrs Seiciatrydd Cymunedol
- ffisiotherapydd
- therapydd galwedigaethol
- gweithiwr cymdeithasol
- gweithiwr cymorth neu gynorthwyydd personol
- gofalwr.

Eu henw

Eu teitl swydd

Eu cyfeiriad

Cod post

Eu rhif ffôn

Gwybodaeth feddygol neu wybodaeth arall sydd gennych yn barod

Pethau y byddai'r Gwasanaeth Ymgynghorol Asesiad Iechyd yn hoffi gweld, os ydynt gennych yn barod

Adroddiadau, cynlluniau gofal neu driniaeth amdanoch chi gan:

- meddygon teulu
- meddygon ysbyty
- nyrsys arbenigol
- nyrsys seiciatrïg cymunedol
- therapyddion galwedigaethol
- ffisiotherapyddion
- gweithwyr cymdeithasol
- gweithwyr cymorth
- timau cymorth anabledd dysgu
- ymgynghorwyr neu ofalwyr

Gwybodaeth arall:

- Pasbortau Ysbyty. Mae hwn yn gofnod ysgrifenedig a gedwir gan bobl sydd ag anableddau dysgu i ddarparu staff yr ysbyty gyda gwybodaeth bwysig amdanynt a'u hiechyd pan gânt eu derbyn i'r ysbyty.
- Cynlluniau Iechyd Addysg..
- Dyddiadur o'ch symptomau os yw eich anabledd, salwch neu gyflwr iechyd yn amrywio o ddydd i ddydd.
- Gwybodaeth arhosiad hir yn ysbytai, gan gynnwys dyddiad derbyn, hyd yr arhosiad ac enw a chyfeiriad yr ysbyty

Cofiwch - anfonwch gopiâu o wybodaeth feddygol neu wybodaeth arall sydd eisoes gennych. Peidiwch â gofyn neu dalu am wybodaeth newydd nac anfon dogfennau gwreiddiol atom.

Ysgrifennwch eich rhif Yswiriant Gwladol ar bob darn o wybodaeth rydych yn eu hanfon atom.

Canlyniadau meddygol gan gynnwys:

- sganiau
- awdioleg
- canlyniadau pelydr X, ond nid y pelydron X eu hun.

Pethau fel:

- eich rhestr bresgripsiwn presennol
- eich datganiad anghenion addysgol arbennig
- dyddiadur trawiad epilepsi
- eich ardystiad nam ar y golwg

Pethau nid oes angen i'r Gwasanaeth Ymgynghorol Asesiad Iechyd ei weld

Gwybodaeth gyffredinol am eich cyflyrau meddygol nad ydynt yn ymwneud â chi yn bersonol. Fel:

- Llundain
- Llythyrau am fudd-daliadau eraill
- Taflenni ffeithiau am eich meddyginiaeth

- Argraffiadau o'r Rhyngwrdd
- Datganiad o Ffitrwydd ar gyfer Gwaith, a elwir fel nodiadau ffitrwydd, tystysgrifau meddygol datganiadau meddyg neu nodiadau salwch
- Llythyrau apwyntiad

Triniaeth cancer



PWYSIG: Os yw'ch triniaeth cancer yn effeithio arnoch ac nad oes gennych unrhyw gyflyrau iechyd eraill, nid oes yn rhaid i chi ateb yr holl gwestiynau ar yr holiadur hwn.

Ydych chi wedi cael diagnosis o ganser?

Ydych chi'n cael, yn aros am neu'n gwella o unrhyw un o'r triniaethau cancer canlynol?

- Cemotherapi
- triniaeth biolegol/imiwnotherapi
- triniaeth hormonaidd
- therapi wedi'i dargedu, neu
- radiotherapi

Oes gennych broblemau iechyd eraill, yn ogystal â chanser a'r problemau sy'n deillio o'ch triniaeth cancer?

Na	Ewch i Eich anableddau, salwch neu gyflyrau iechyd ar dudalen 6.
Ydw	Ewch i'r cwestiwn neaf.
Na	Ewch i Eich anableddau, salwch neu gyflyrau iechyd ar dudalen 6.
Ydw	Ewch i'r cwestiwn nesaf.
Na	Sicrhewch fod tudalen 24 wedi ei lenwi a'i lofnodi gan eich Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol. Gall hyn gynnwys meddyg teulu (gall godi ffi), meddyg yn yr ysbyty neu nyrs glinigol sy'n ymwybodol o'ch triniaeth cancer. Pan fydd eich Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol wedi llofnodi tudalen 24 ac rydych wedi llofnodi tudalen 22 gallwch ddychwelyd yr holiadur hwn yn yr amlen amgaeedig.
Oes	Cwblhewch weddill yr holiadur hwn.

Eich anableddau, salwch neu gyflyrau iechyd

Byddwn yn gofyn cwestiynau penodol am sut y mae eich anabledd, salwch neu gyflwr iechyd yn effeithio ar eich gallu i wneud pethau o ddydd i ddydd yng ngweddill yr holiadur hwn.

Dywedwch wrthym:

- beth yw eich anableddau, salwch neu gyflyrau iechyd
- sut maent yn effeithio arnoch
- pryd wnaethant ddechrau
- os ydych yn credu bod unrhyw un o'ch cyflyrau yn gysylltiedig â chyffuriau neu alcohol

Dywedwch wrthym am:

- unrhyw gymhorthion a ddefnyddiwch, fel cadair olwyn neu gymorth clyw
- unrhyw beth arall y credwch y dylem wybod am eich anableddau, salwch neu gyflyrau iechyd

Os ydych angen mwy o le,
Defnyddiwch **dudalen 21** neu ddalen o bapur ar wahân.

Eich anableddau, salwch neu gyflyrau iechyd parhad

Dywedwch wrthym am unrhyw dabledi, hylifau, anadlyddion neu feddyginiaeth arall rydych yn eu cymryd ac unrhyw sgil-effeithiau sydd gennych.

Gallwch ddod o hyd i restr o’ch meddyginiaethau ar eich presgripsiwn diweddaraf.

Os ydych angen mwy o le, defnyddiwch **dudalen 21** neu ddalen arall o bapur.

Triniaeth ysbyty, clinig neu driniaeth arbenigol fel dialysis neu adsefydlu

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym am unrhyw:

- triniaeth ysbyty neu glinig a gewch
- triniaeth ysbyty neu glinig rydych yn disgwyl eu cael yn y dyfodol agos
- triniaeth arbennig a gewch fel dialysis neu adsefydlu

Dywedwch wrthym hefyd am unrhyw driniaeth arbennig rydych yn ei gael efallai na fyddwch yn mynd i’r ysbyty neu glinig ar ei gyfer.

Dywedwch wrthym am eich holl driniaethau ysbyty, clinig neu arbenigol.

Er enghraifft

- beth yw’r driniaeth
- ble rydych yn mynd i gael y driniaeth
- pa mor aml rydych yn cael y driniaeth.

Os ydych yn disgwyl cael triniaeth yn y dyfodol agos, dywedwch wrthym

- beth bydd y triniaeth
- pryd fydd y driniaeth yn dechrau.

Os ydych angen mwy o le, defnyddiwch **dudalen 21** neu ddalen o bapur ar wahân.

Ydych chi’n cael neu’n aros am unrhyw driniaeth sydd angen i chi aros yn rhywle dros nos neu hirach?

Os oes angen mwy o le arnoch, defnyddiwch y gofod ar **dudalen 21** neu ddalen arall o bapur.

Na Ewch i **Ran 1** ar y dudalen nesaf
Ydw Dywedwch wrthym am hyn isod.

Ydych chi’n cael neu’n aros am unrhyw driniaeth sydd angen i chi aros yn rhywle dros nos neu hirach?

Os oes angen mwy o le arnoch, defnyddiwch y gofod ar **dudalen 21** neu ddalen arall ar wahân.

Na Ewch i **Ran 1** ar y dudalen nesaf
Ydw Dywedwch wrthym enw’r sefydliad sy’n rhedeg eich cynllun, pryd ddechreuodd eich triniaeth, neu i fod i ddechrau, a phryd yr ydych yn disgwyl iddo ddod i ben.

Sut mae eich cyflyrau iechyd yn effeithio arnoch

- Rhan 1** yn ymwneud â phroblemau iechyd corfforol.
- Rhan 2** yn ymwneud â phroblemau iechyd meddwl, gwybyddol a deallusol. Mae gwybyddol yn golygu problemau a allai fod gennych gyda meddwl, dysgu, deall neu gofio pethau
- Rhan 3** yn ymwneud â bwyta ac yfed.

Rhan 1: Galluoedd corfforol

Atebwch Gallaf i'r cwestiynau canlynol, dim ond os gallwch wneud y weithred yn ddiogel, i safon dderbyniol, ac mor aml ag sydd angen i chi gwneud ac mewn amser rhesymol.

1. Symud o amgylch a defnyddio'r grisiau

Mae symud yn cynnwys defnyddio cymhorthion fel cadair olwyn llaw, baglau neu ffon gerdded, os rydych fel arfer yn eu defnyddio, ond heb help gan rywun arall.

Ticiwch y blwch hwn os gallwch symud o amgylch a defnyddio grisiau heb unrhyw anhawster.

Pa mor bell allwch chi symud yn ddiogel a throsodd a throsodd ar dir gwastad heb fod angen stopio?

Er enghraifft, oherwydd blinder, poen, diffyg anadl neu ddiffyg cydbwysedd.

Defnyddiwch y gofod hwn i ddweud wrthym:

- pa mor bell y gallwch symud a pham y gallai fod angen i chi stopio
- os ydych fel arfer yn defnyddio ffon gerdded, baglau, cadair olwyn neu unrhyw beth arall i'ch helpu, a dywedwch wrthym sut mae'n effeithio ar y ffordd rydych yn symud o gwmpas

Mynd i fyny neu i lawr dau ris

Allwch chi fynd i fyny neu i lawr dau ris, heb help gan rywun arall, os oes canllaw i chi afael ynddo?

Os ateboch **Na** neu **Mae'n amrywio** defnyddiwch y gofod hwn i ddweud mwy wrthym am ddefnyddio grisiau.

Nawr ewch i **gwestiwn 2** ar y dudalen nesaf.

50 metr – mae hyn tua hyd 5 bws deulawr, neu ddwywaith hyd pwll nofio cyhoeddus cyffredin.

100 metr – mae hyn tua hyd cae pêl-droed..

200 metr neu fwy.

Mae'n amrywio.

Na

Gallaf - nawr ewch i **gwestiwn 2** ar y dudalen nesaf.
Mae'n amrywio

Atebwch Gallaf i'r cwestiynau canlynol, dim ond os gallwch wneud y weithred yn ddiogel, i safon dderbyniol, ac mor aml ag sydd angen i chi gwneud ac mewn amser rhesymol.

2. Sefyll ac eistedd

Ticiwch y blwch hwn os gallwch sefyll ac eistedd heb anhawster.

Allwch chi symud o un sedd i'r llall sydd wrth ymyl ei gilydd heb gymorth gan rywun arall?

Tra'ch bod yn sefyll neu'n eistedd (neu gyfuniad o'r ddau) pa mor hir y gallwch aros mewn un lle a bod yn ddi-boen heb gymorth rhywun arall?
Nid yw hyn yn golygu sefyll neu eistedd yn llonydd. Mae'n cynnwys gallu newid safle.

Os ydych wedi ateb **Na** neu **Mae'n amrywio** defnyddiwch y gofod hwn i ddweud mwy wrthym am sefyll ac eistedd a pham fod hyn yn anodd i chi.

- Cofiwch gynnwys:
- pa mor hir y gallwch eistedd
 - pa mor hir y gallwch sefyll
 - beth allai wneud eistedd a sefyll yn anodd i chi.

Nawr ewch i **gwestiwn 3** isod

Na
Gallaf
Mae'n amrywio

Llai na 30 munud.
30 munud i awr.
Mwy nag awr.
Mae'n amrywio

3. Ymestyn

Ticiwch y blwch hwn os gallwch ymestyn y naill fraich neu'r llall heb anhawster.

Allwch chi godi o leiaf un o'ch breichiau yn ddigon uchel i roi rhywbeth ym mhoced uchaf cot neu siaced tra'ch bod yn ei wisgo?

Allwch chi godi un o'ch breichiau uwch eich pen?

Os ydych wedi ateb **Na** neu **Mae'n amrywio** defnyddiwch y gofod hwn:

- pam na allech chi ymestyn
- a yw'n effeithio ar y ddwy fraich.

Nawr ewch i **gwestiwn 4** ar y dudalen nesaf

Na
Gallaf
Mae'n amrywio

Na
Gallaf
Mae'n amrywio

Atebwch Gallaf i'r cwestiynau canlynol, dim ond os gallwch wneud y weithred yn ddiogel, i safon dderbyniol, ac mor aml ag sydd angen i chi gwneud ac mewn amser rhesymol.

4. Codi a symud pethau - gan ddefnyddio rhan uchaf y corff a'r naill fraich neu'r llall

Ticiwch y blwch hwn os gallwch godi pethau a'u symud heb anhawster.

Allwch chi godi a symud carton hanner litr (un peint) yn llawn hylif a'i symud drwy ddefnyddio rhan uchaf y corff a'r naill fraich neu'r llall?

Allwch chi godi a symud carton litr (dau beint) yn llawn hylif a'i symud drwy ddefnyddio rhan uchaf y corff a'r naill fraich neu'r llall?

Allwch chi godi a symud rhywbeth mawr ond ysgafn, er enghraifft blwch cardbord gwag?
Er enghraifft, o un wyneb i'r llall ar uchder y gwasg.

Os ydych wedi ateb **Na** neu **Mae'n amrywio** defnyddiwch y gofod hwn i ddweud wrthym:

- mwy am godi pethau a'u symud
- pam na allech godi pethau i fyny

Nawr ewch i **gwestiwn 5** isod.

Na
Gallaf
Mae'n amrywio

Na
Gallaf
Mae'n amrywio

Na
Gallaf
Mae'n amrywio

5. Medrusrwydd â dwylo (defnyddio eich dwylo)

Ticiwch y blwch hwn os gallwch ddefnyddio eich dwylo heb unrhyw anhawster.

Allwch chi ddefnyddio'r naill law neu'r llall i:

- pwyso botwm, fel bysellbad ffôn
- troi tudalennau llyfr
- codi darn £1
- defnyddio pen neu bensil
- defnyddio bysellfwrdd neu lygodyn cyfrifiadur addas?

Defnyddiwch y gofod hwn i ddweud wrthym:

- pa rai o'r rhain y gallech gael problemau gyda hwy a pham
- a yw'n amrywio, dywedwch sut.

Nawr ewch i **gwestiwn 6** ar y dudalen nesaf.

Rhai o'r pethau hyn.
Dim o'r pethau hyn.
Mae'n amrywio.

Atebwch Gallaf i'r cwestiynau canlynol, dim ond os gallwch wneud y weithred yn ddiogel, i safon dderbyniol, ac mor aml ag sydd angen i chi gwneud ac mewn amser rhesymol.

6. Cyfathrebu - siarad, ysgrifennu a theipio

Trwy gyfathrebu, nid ydym yn golygu cyfathrebu mewn iaith arall.
Mae'r adran hon yn gofyn am sut y gallwch gyfathrebu â phobl eraill.

Ticiwch y blwch hwn os gallwch gyfathrebu â phobl eraill heb unrhyw anhawster.

Allwch chi gyfathrebu neges syml i bobl eraill fel presenoldeb rhywbeth peryglus?

Gall hyn fod trwy siarad, ysgrifennu, teipio neu unrhyw ddull arall, ond heb gymorth rhywun arall.

Os ydych wedi ateb **Na** neu **Mae'n amrywio** defnyddiwch y gofod hwn i ddweud wrthym:

- sut rydych yn cyfathrebu
- pam na allwch gyfathrebu â phobl eraill. Er enghraifft, anawsterau gyda lleferydd, ysgrifennu neu deipio

Nawr ewch i **gwestiwn 7** isod

Na
Gallaf
Mae'n amrywio

7. Cyfathrebu - clywed a darllen

Mae'r adran hon yn gofyn am eich gallu i glywed pobl eraill a darllen gwybodaeth argraffedig.

Ticiwch y blwch hwn os gallwch ddeall pobl eraill heb unrhyw anhawster.

Allwch chi ddeall negeseuon syml gan bobl eraill trwy glywed neu ddarllen gwefusau heb gymorth rhywun arall?

Mae neges syml yn golygu pethau fel rhywun sy'n dweud wrthych lleoliad allanfa dân.

Allwch chi ddeall negeseuon syml gan bobl eraill trwy ddarllen print bras neu drwy ddefnyddio Braille?

Nawr ewch i **gwestiwn 8** ar y dudalen nesaf

Na
Gallaf
Mae'n amrywio

Na
Gallaf
Mae'n amrywio

Os ydych chi wedi ateb **Na** neu **Mae'n amrywio** defnyddiwch y gofod hwn i ddweud wrthym a oes angen i chi gyfathrebu mewn ffordd arall neu ddefnyddio cymhorthion, fel cymorth clyw.

Atebwch Gallaf i'r cwestiynau canlynol, dim ond os gallwch wneud y weithred yn ddiogel, i safon dderbyniol, ac mor aml ag sydd angen i chi gwneud ac mewn amser rhesymol.

8. Mynd o amgylch yn ddiogel

Mae'r adran hon yn gofyn am broblemau gyda'ch golwg. Os ydych fel arfer yn defnyddio sbectol neu lensys cyffwrdd, neu'n defnyddio ci tywys neu unrhyw gymorth arall, dywedwch wrthym sut rydych chi'n ei reoli pan fyddwch yn eu defnyddio. Dywedwch wrthym hefyd pa mor dda rydych yn gweld yng ngolau dydd neu golau trydan llachar.

Ticiwch y blwch hwn os gallwch fynd o amgylch yn ddiogel ar eich pen eich hun.

Allwch chi weld i groesi'r ffordd ar eich pen eich hun?

Allwch chi symud o amgylch mewn lle nad ydych wedi bod ynddo o'r blaen heb help?

Os ydych wedi ateb **Na** neu **Mae'n amrywio** defnyddiwch y gofod hwn i ddweud wrthym:

- am eich golwg
- unrhyw broblemau sydd gennych gyda mynd o amgylch yn ddiogel

Nawr ewch i **gwestiwn 9** isod.

Na
Gallaf
Mae'n amrywio

Na
Gallaf
Mae'n amrywio

9. Rheoli eich coluddion a'ch pledren a defnyddio dyfais casglu

Ticiwch y blwch hwn os gallwch reoli eich coluddion a'ch pledren heb unrhyw anhawster.

Oes rhaid i chi ymolchi neu newid eich dillad oherwydd anhawster wrth reoli eich pledren, coluddion neu ddyfais casglu?

Mae dyfais casglu yn cynnwys bagiau stoma a catheterau.

Defnyddiwch y gofod hwn i ddweud wrthym:

- am reoli eich coluddion a'ch pledren a'ch dyfais casglu
- os ydych yn profi problemau os nad ydych yn gallu cyrraedd y toiled ar frys
- pa mor aml sydd angen i chi olchi neu newid eich dillad oherwydd anawsterau gyda rheoli eich pledren, coluddion neu ddyfais casglu.

Nawr ewch i **gwestiwn 10** ar y dudalen nesaf..

Na
Oes – wythosol
Oes – misol
Oes – llai na misol
Oes – ond dim ond pan na allaf gyrraedd y toiled yn gyflym

Atebwch Gallaf i'r cwestiynau canlynol, dim ond os gallwch wneud y weithred yn ddiogel, i safon dderbyniol, ac mor aml ag sydd angen i chi gwneud ac mewn amser rhesymol.

10. Aros yn ymwybodol pan yn effro

Nid yw aros yn ymwybodol pan yn effro yn golygu cwmpo i gysgu dim ond oherwydd eich bod wedi blino..

Ticiwch y blwch hwn os na chewch unrhyw broblemau o ran aros yn ymwybodol pan yn effro.

Pan fyddwch yn effro, pa mor aml rydych yn cael ffitiau neu'n llewygu?

Mae hyn yn cynnwys trawiadau epileptig fel ffitiau, trawiadau rhannol neu ffocal, absenoldebau a hypos diabetig.

Dywedwch fwy wrthym am lewygu, ffitiau a cholli ymwybyddiaeth llwyr yma.

Nawr ewch i **Ran 2** ar y dudalen nesaf.

- Bob dydd
- Wythnosol
- Misol
- Llai na misol

Rydych wedi cwblhau'r adran ar gyfer eich galluoedd corfforol.

Rhan 2: Galluoedd meddyliol, gwybyddol a deallusol

Yn y rhan hon rydym yn gofyn sut mae eich problemau iechyd meddwl, gwybyddol neu ddeallusol yn effeithio ar sut y gallwch wneud pethau o ddydd i ddydd. Mae hyn yn golygu problemau a allai fod gennych gan afiechydon meddwl fel sgitsoffrenia, iselder a phryder, neu gyflyrau fel awtistiaeth, anawsterau dysgu, effeithiau anafiadau i'r pen a chyflyrau i'r ymennydd neu niwrolegol.

Os ydych yn cael anawsterau wrth gwblhau'r adran hon, gallwch ofyn i ffrind, perthynas, gofalwr neu weithiwr cymorth i'ch helpu

Gallwch ffonio Credyd Cynhwysol ar y rhif sydd ar frig unrhyw lythyrau a anfonwyd atoch. Byddant yn siarad â chi drwy'r cwestiynau dros y ffôn neu gallwch ddefnyddio'ch dyddlyfr ar-lein os oes gennych un i ofyn cwestiynau.

Os hoffech i unrhyw wybodaeth ychwanegol gael ei ystyried, er enghraifft, gan eich meddyg, nyrs seiciatrïg cymunedol, therapydd galwedigaethol, ymgynghorydd, seicotherapydd, therapydd gwybyddol, gweithiwr cymdeithasol, gweithiwr cymorth neu ofalwr, anfonwch y wybodaeth gyda'r ffurflen hon. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n dweud wrthym sut mae eich anabledd, salwch neu gyflwr iechyd yn effeithio ar eich gallu i wneud pethau o ddydd i ddydd a gwybodaeth am sut mae hyn yn effeithio arnoch pan rydych yn fwyaf sâl

Dylech anfon copiâu o wybodaeth feddygol neu wybodaeth arall sydd eisoes gennych yn unig. Peidiwch â gofyn neu dalu am wybodaeth newydd nac anfon dogfennau gwreiddiol atom. Ysgrifennwch eich rhif Yswiriant Gwladol ar bob un darn o wybodaeth rydych yn eu hanfon atom.

Atebwch Gallaf i'r cwestiynau canlynol, dim ond os gallwch wneud y weithred yn ddiogel, i safon dderbyniol, ac mor aml ag sydd angen i chi gwneud ac mewn amser rhesymol.

11. Dysgu sut i wneud tasgau

Ticiwch y blwch hwn os gallwch ddysgu sut i wneud tasgau bob dydd heb anhawster.

Allwch chi ddysgu sut i wneud tasg syml fel gosod cloc larwm?

Allwch chi ddysgu sut i wneud tasg fwy cymhleth fel defnyddio peiriant golchi?

Os ydych wedi ateb **Na** neu **Mae'n amrywio** defnyddiwch y gofod hwn i ddweud wrthym:

- am unrhyw anawsterau a gewch wrth ddysgu sut i wneud tasgau
- pam eich bod yn eu cael yn anodd

Os ydych angen mwy o le gallwch ddefnyddio'r blwch ar **dudalen 21** neu dudalen wag o bapur.

Nawr ewch i **gwestiwn 12** ar y dudalen nesaf.

Na
Gallaf
Mae'n amrywio

Na
Gallaf
Mae'n amrywio

Atebwch Oes i'r cwestiynau canlynol, dim ond os gallwch wneud y weithred yn ddiogel, i safon dderbyniol, ac mor aml ag sydd angen i chi gwneud ac mewn amser rhesymol.

12. Ymwybyddiaeth o beryglon neu berygl

Ticiwch y blwch hwn os gallwch gadw eich hun yn ddiogel wrth wneud tasgau bob dydd fel berwi dŵr neu ddefnyddio offer miniog.

Oes angen rhywun i aros gyda chi am ran fwyaf o'r amser i'ch cadw'n ddiogel?

- Os ydych wedi ateb **Na** neu **Mae'n amrywio**, defnyddiwch y gofod hwn i ddweud wrthym:
- sut rydych yn ymdopi â pherygl
 - pa broblemau a gewch wrth wneud pethau'n ddiogel

Nawr ewch i **gwestiwn 13** isod

Na
Oes
Mae'n amrywio

13. Dechrau a gorffen tasgau

Mae'r adran hon yn gofyn am b'un a allwch lwyddo i ddechrau a chwblhau arferion a thasgau fel coginio pryd neu fynd i siopa.

Ticiwch y blwch hwn os gallwch wneud tasgau bob dydd heb anhawster.

Allwch chi gynllunio, dechrau a gorffen tasgau bob dydd?

- Defnyddiwch y gofod hwn i ddweud wrthym:
- pa anawsterau a gewch yn ystod eich arferion bob dydd. Er enghraifft, cofio gwneud pethau, cynllunio a threfnu sut i'w gwneud, a chanolbwyntio er mwyn eu gorffen
 - beth allai ei gwneud yn anodd i chi a pha mor aml mae angen pobl eraill i'ch helpu
 - os yw'n amrywio, dywedwch wrthym sut.

Nawr ewch i **gwestiwn 14** ar y dudalen nesaf.

Byth
Weithiau
Mae'n amrywio

Atebwch Gallaf i'r cwestiynau canlynol, dim ond os gallwch wneud y weithred yn ddiogel, i safon dderbyniol, ac mor aml ag sydd angen i chi gwneud ac mewn amser rhesymol.

14. Ymdopi â newid

Ticiwch y blwch hwn os gallwch ymdopi gyda newid i'ch trefn ddyddiol.

Allwch chi ymdopi gyda newidiadau bach i'ch trefn os ydych yn gwybod amdanynt cyn iddynt ddigwydd?

Er enghraifft, pethau fel cael pryd o fwyd yn gynt neu'n hwyrach nag arfer,neu amser apwyntiad yn cael ei newid.

Allwch chi ymdopi â newidiadau bach i'ch trefn os nad ydych yn eu disgwyl?

Mae hyn yn golygu pethau fel eich bws neu dren yn rhedeg yn hwyr, neu ffrind neu ofalwr yn dod i'ch cartref yn fuan neu hwyrach nag oedd wedi'i gynllunio.

Os ydych wedi ateb **Na** neu **Mae'n amrywio** defnyddiwch y gofod hwn i ddweud wrthym sut rydych yn ymdopi â newid. Eglurwch eich problemau, a rhowch enghreifftiau os gallwch.

Nawr ewch i **gwestiwn 15** isod.

Na
Gallaf
Mae'n amrywio

Na
Gallaf
Mae'n amrywio

15. Mynd allan

Mae'r cwestiwn hwn am eich gallu i ymdopi'n feddyliol neu'n emosiynol gyda mynd allan. Os oes gennych broblemau corfforol sydd yn golygu na allwch fynd allan, dylech ddweud wrthym am hyn yn **Rhan 1** (galluoedd corfforol) o'r ffurflen hon.

Ticiwch y blwch hwn os gallwch fynd allan ar eich pen eich hun.

Allwch chi adael y tŷ a mynd allan i lefydd cyfarwydd?

Allwch chi adael y tŷ a mynd i lefydd nad ydych yn gyfarwydd â hwy?

Os ydych wedi ateb **Na** neu **Mae'n amrywio**, defnyddiwch y gofod hwn i ddweud wrthym:

- pam na allwch fynd i lefydd bob amser
- oes angen i chi gael rhywun i fynd gyda chi

Eglurwch eich problemau, a rhowch enghreifftiau os y gallwch.

Nawr ewch i **gwestiwn 16** ar y dudalen nesaf.

Na
Gallaf, os oes rhywun gyda fi
Mae'n amrywio

Na
Gallaf, os oes rhywun gyda fi
Mae'n amrywio

Atebwch Gallaf i’r cwestiynau canlynol, dim ond os gallwch wneud y weithred yn ddiogel, i safon dderbyniol, ac mor aml ag sydd angen i chi gwneud ac mewn amser rhesymol.

16. Ymdopi â sefyllfaoedd cymdeithasol

Ystyr sefyllfaoedd cymdeithasol yw pethau fel cwrdd â phobl newydd a mynd i gyfarfodydd neu apwyntiadau.

Ticiwch y blwch hwn os gallwch ymdopi â sefyllfaoedd cymdeithasol heb deimlo’n rhy bryderus neu ofnus.

Allwch chi gwrdd â phobl rydych yn eu hadnabod heb deimlo’n rhy bryderus neu ofnus?

Allwch chi gwrdd â phobl ddieithr heb deimlo’n rhy bryderus neu ofnus?

- Os ydych wedi ateb **Na** neu **Mae’n amrywio**, defnyddiwch y gofod hwn i ddweud wrthym:
- pam eich bod yn gofidio am gwrdd â phobl eraill
 - beth sy’n ei wneud yn anodd
 - pa mor aml rydych yn teimlo fel hyn

Eglurwch eich problemau, a rhowch enghreifftiau os y gallwch.

Nawr ewch i **gwestiwn 17** isod.

Na
Gallaf
Mae’n amrywio

Na
Gallaf
Mae’n amrywio

17. Ymddwyn yn briodol

Mae’r adran hon yn gofyn am b’un a yw eich ymddygiad yn gofidio pobl eraill. Nid yw hyn yn golygu mân ddadleuon rhwng cyplau.

Ticiwch y blwch hwn os nad yw eich ymddygiad yn gofidio pobl eraill.

Pa mor aml rydych yn ymddwyn mewn modd sy’n gofidio pobl eraill?

Er enghraifft, gallai hyn fod oherwydd bod eich cyflwr iechyd, salwch neu anabledd yn gwneud i chi ymddwyn yn ymosodol neu’n gweithredu mewn ffordd anarferol.

Defnyddiwch y gofod hwn i ddweud wrthym am enghreifftiau o sut mae eich ymddygiad yn cynhyrfu pobl eraill a pha mor aml mae hyn yn digwydd. Eglurwch eich problemau, a rhowch enghreifftiau os y gallwch. Os yw’n amrywio, dywedwch sut wrthym.

Nawr ewch i **gwestiwn 18** ar y dudalen nesaf.

Bob dydd
Yn aml
Yn achlysurol
Mae’n amrywio

Rhan 3: Bwyta neu yfed

Atebwch Gallaf i'r cwestiynau canlynol, dim ond os gallwch wneud y weithred yn ddiogel, i safon dderbyniol, ac mor aml ag sydd angen i chi gwneud ac mewn amser rhesymol.

18. Bwyta neu yfed

Allwch chi gael bwyd neu ddiod i'ch ceg heb help neu annogaeth gan berson arall?

Na
Gallaf
Mae'n amrywio

Allwch chi gnoi a llyncu bwyd ac yfed heb help neu anogaeth gan berson arall?

Na
Gallaf
Mae'n amrywio

Os ydych wedi ateb **Na** neu **Mae'n amrywio** defnyddiwch y gofod hwn i ddweud wrthym am sut rydych yn bwyta ac yfed, a pham efallai mai angen help arnoch.

Rhannu gwybodaeth am eich cyflwr iechyd

Efallai y bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol cymeradwy sy'n gweithio iddynt, angen mwy o wybodaeth am eich cyflwr iechyd a sut mae'n effeithio ar eich gallu i weithio.

Efallai y byddant yn gofyn am y wybodaeth berthnasol gan eich meddyg neu unrhyw weithiwr proffesiynol perthnasol arall rydych yn dweud wrthynt amdanynt.

A ydych yn rhoi caniatâd i'ch meddyg neu weithwyr proffesiynol perthnasol eraill roi mwy o wybodaeth i'r DWP am eich cyflwr iechyd?

Ydw - gellir rhannu gwybodaeth am fy iechyd gyda'r DWP neu'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio iddynt

Na - ni ellir rhannu gwybodaeth am fy iechyd gyda'r DWP neu'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio iddynt

Gall DWP ofyn yn gyfreithlon i'ch doctor, ysbyty, neu weithwyr proffesiynol perthnasol eraill am wybodaeth am eich cyflwr iechyd a sut mae'n effeithio arnoch. Mae hyn oherwydd eu bod yn gofyn am wybodaeth i'w helpu i gyflawni eu swyddogaethau nawdd cymdeithasol swyddogol.

Nid oes rhaid i chi roi eich caniatâd. Os na wnewch hynny, bydd DWP yn gwneud penderfyniad yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ganddynt eisoes, yn ogystal ag unrhyw beth a roddwch iddynt eich hun.

Os byddwch yn newid eich meddwl

Gallwch newid eich meddwl. Gallwch wneud hyn drwy fynd i'ch dyddlyfr ar-lein a rhoi gwybod am newid neu ffonio Credyd Cynhwysol ar **0800 328 1744** a dweud eich bod eisieu rhoi neu dynnu'n ôl eich caniatâd. Os ydych yn tynnu'n ôl eich caniatâd, ni all DWP gael gwybodaeth gan eich meddyg neu eraill a enwir ar eich ffurflen.

Rwyf wedi darllen a deall y cynnwys uchod.

Sut mae DWP yn defnyddio'r wybodaeth yma

Mae DWP yn defnyddio'r wybodaeth yma i:

- brosesu eich cais
- gwneud penderfyniad ar eich cais, neu unrhyw ailystyriaeth orfodol neu apêl a wnewch.

Mae'r gyfraith yn caniatáu i DWP cael, cadw a defnyddio'r wybodaeth hon.

Mae angen eich caniatâd ar eich meddyg (neu'r gweithwyr proffesiynol perthnasol rydych yn ddweud wrth DWP amdanynt) i roi gwybodaeth i DWP. Os rhowch eich caniatâd, mae hyn yn gadael iddynt wybod eu bod yn cael caniatâd cyfreithiol i rannu'r wybodaeth hon gyda DWP.

Llofnod

Dyddiad

Asesiad wyneb yn wyneb

Efallai y gofynnir i chi fynychu asesiad wyneb yn wyneb gyda gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol cymwysedig sy'n gweithio i'r Gwasanaeth Ymgynghorol Asesiad Iechyd. Byddant yn anfon llythyr atoch gyda manylion yr apwyntiad a thaflen sy'n esbonio beth sy'n digwydd mewn asesiad a phwy y gallwch gymryd gyda chi.

Os na ofynnir i chi fynychu asesiad wyneb yn wyneb, bydd Credyd Cynhwysol yn ysgrifennu atoch ac yn egluro beth fydd yn digwydd gyda'ch cais. Ni fydd y Gwasanaeth Ymgynghorol Asesiad Iechyd yn ysgrifennu atoch.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi manylion eich rhif ffôn a'ch cyfeiriad yn yr adran 'Amdanoch Chi' ar **dudalen 2**.

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r Gwasanaeth Ymgynghorol Asesiad Iechyd cyn gynted ag y byddwch yn cael eich llythyr apwyntiad os oes angen:


- ymweliad â'ch cartref. Bydd angen i chi roi gwybodaeth gan eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i esbonio pam nad ydych yn gallu teithio i'r ganolfan asesu
- recordio eich asesiad ar dâp neu CD. Caiff ceisiadau eu derbyn lle bo modd. Cewch ragor o fanylion am recordio eich asesiad ar dâp neu CD yn **www.gov.uk** a chwiliwch am 'audio recording of face-to-face assessments'

Rhowch wybod i'r Gwasanaeth Ymgynghorol Asesiad Iechyd o leiaf **ddau ddiwrnod gwaith** cyn eich asesiad os oes angen:

- asesiad ar y llawr isaf os nad ydych yn gallu defnyddio grisiau heb gymorth mewn argyfwng
- dehonglydd iaith arwyddion. Mae croeso i chi ddod â'ch dehonglydd iaith arwyddion eich hunain gyda chi ond mae'n rhaid iddynt fod yn 16 oed neu'n hŷn
- eich asesiad wyneb yn wyneb gyda gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol o'r **un rhyw â chi**. Er enghraifft, ar sail diwylliant neu grefydd. Bydd y Gwasanaeth Ymgynghorol Asesiad Iechyd yn gwneud ei gorau i ddarparu un ar eich cyfer, ond efallai na fydd hyn yn bosibl bob tro.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am yr asesiad wyneb yn wyneb, ewch i **www.gov.uk/uc-asesiad-gallu-i-weithio**

Dywedwch wrthym am unrhyw help arall y gallai fod angen i chi ei gael yn y gofod isod.



Os nad ydych yn deall Cymraeg neu Saesneg neu’n methu siarad yr ieithoedd hyn oes angen dehonglydd arnoch?

Gallwch ddod â’ch dehonglydd eich hun i’r asesiad, ond rhaid iddynt fod dros 16 oed.

Ticiwch y blwch hwn os byddwch yn dod â’ch dehonglydd eich hun.

A fydddech yn hoffi cael eich galwad ffôn yn Gymraeg?

A fydddech yn hoffi eich asesiad wyneb yn wyneb yn Gymraeg?

Dywedwch wrthym am unrhyw amseroedd neu ddyddiadau yn y 3 mis nesaf pan na allwch fynd i asesiad wyneb i wyneb.

Er enghraifft, oherwydd apwyntiad yn yr ysbyty.

Na
Oes Pa iaith yr hoffech ei defnyddio?

Na
Byddwn

Na
Byddwn

Gwybodaeth arall

Os oes angen mwy o le arnoch i ateb unrhyw un o'r cwestiynau, defnyddiwch y gofod isod. Os oes unrhyw ofalwyr, ffrindiau neu berthynas am ychwanegu gwybodaeth, gallant wneud hynny yma. Gallai hyn fod oherwydd eu bod yn gwybod yr effeithiau y bydd eich anabledd, salwch neu gyflwr iechyd yn eu cael ar sut y gallwch wneud pethau o ddydd i ddydd.

Cwblhewch **dudalen 4** gyda’u manylion cyswllt oherwydd efallai y byddwn yn cysylltu â hwy am fwy o wybodaeth i gefnogi eich cais.

Os bydd angen i chi roi mwy o wybodaeth i ni ar ddalen o bapur ar wahân, rhwch eich enw a’ch rhif Yswiriant Gwladol arni

Caniatâd i hysbysu eich meddyg teulu o ganlyniad eich Asesiad Gallu i Weithio

Hoffai DWP rannu eu penderfyniad a wnaed yn seiliedig ar ganlyniad eich Asesiad Gallu i Weithio (WCA) gyda'ch meddyg, neu unrhyw feddyg sy'n eich trin. Bydd hyn yn helpu'ch meddyg, gan y bydd yn dweud wrthynt pan na fydd angen iddynt ddarparu Datganiadau Ffitrwydd i Weithio i chi mwyach (a elwir hefyd yn nodiadau ffitrwydd neu dystysgrifau meddygol) at ddibenion y cais hwn.

Rydym angen eich cytundeb i rannu'r wybodaeth hyn. Nid oes yn rhaid i chi roi eich cytundeb, os na fyddwch yn cytuno, ni fydd hyn yn effeithio eich cais am Gredyd Cynhwysol.

Gallwch newid eich meddwl unrhyw amser cyn yr asesiad meddygol. Os ydych yn gwneud, ewch i'ch dyddlyfr ar-lein a rhoi gwybod am newid neu ffonio Credyd Cynhwysol ar 0800 328 1744 a dweud eich bod eisiau rhoi neu dynnu'n ôl eich caniatâd

Os byddwch yn cysylltu â ni ar ôl yr asesiad, gallai fod yn rhy hwyr, oherwydd efallai y byddwn wedi gwneud penderfyniad yn barod ac wedi ei rannu.

Os byddwch yn tynnu eich cytundeb yn ôl, ni fyddwn yn rhannu'r penderfyniad yn seiliedig ar ganlyniad eich Asesiad Gallu i Weithio gyda'ch meddyg.

Rwy'n cytuno i'm meddyg, neu unrhyw feddyg arall sy'n fy nhrin, yn cael gwybod am ganlyniad fy Asesiad Gallu i Weithio.

Na

Ydw

Llofnod

Dyddiad

Datganiad

Efallai byddai o gymorth i wneud llungopi o'ch ateb ar gyfer cyfeirio ato yn y dyfodol.

- **Rwyf yn datgan** fy mod wedi darllen a deall y nodiadau ar flaen y ffurflen hon, mae'r wybodaeth a roddais ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn.
- **Rwyf yn deall** fod yn rhaid i mi roi gwybod yn brydlon am bob newid yn fy amgylchiadau a allai effeithio ar fy hawl a thrwy fethu â gwneud hynny gellir fy erlyn neu gallwn wynebu cosb ariannol. Byddaf yn rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i'm amgylchiadau drwy ddefnyddio fy nyddlyfr ar lein am gredyd gynhwysol neu drwy ffonio **0800 328 1744**.
- **Os byddaf yn rhoi gwybodaeth anghywir** neu anghyflawn neu fethu â rhoi gwybod am newidiadau yn fy amgylchiadau yn brydlon, rwyf yn deall y gellir atal neu leihau fy Nghredyd Cynhwysol a gellir adennill unrhyw ordaliad. Yn ogystal, gellir fy erlyn neu gallwn wynebu cosb ariannol.

- **Rwyf hefyd yn deall** y gall yr Adran ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddi ar hyn o bryd neu y gallai ei chael yn y dyfodol i benderfynu p'un a oes gennyf hawl i gael
 - y budd-dal yr wyf yn gwneud cais amdano
 - unrhyw fudd-dal arall yr wyf wedi gwneud cais amdano
 - unrhyw fudd-dal arall y gallaf wneud cais amdano yn y dyfodol.

Mae'n rhaid i chi lofnodi'r ffurflen hon eich hun os gallwch, hyd yn oed os oes rhywun arall wedi'i chwblhau ar eich rhan.

Llofnod

Dyddiad

I bobl sy'n cwblhau'r holiadur hwn ar ran rhywun arall

Os ydych yn cwblhau'r holiadur hwn ar ran rhywun arall, rhowch rywfaint o fanylion amdanoch chi eich hun.

Eich enw

Eich cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn y gallwn gysylltu â chi

Eglurwch pam eich bod yn cwblhau'r holiadur ar ran rhywun arall, pa sefydliad, os o gwbl, rydych yn ei gynrychioli, neu eich cysylltiad â'r sawl y sonnir amdanynt yn yr holiadur hwn.

Beth i'w wneud nesaf

Gwnewch yn siŵr eich bod:

- wedi ateb yr holl gwestiynau ar yr holiadur hwn sy'n berthnasol i chi
- wedi llofnodi a dyddio'r holiadur
- yn dychwelyd yr holiadur erbyn y dyddiad rydym yn dweud wrthych yn y llythyr amgaeedig
- yn dychwelyd yr holiadur wedi ei gwblhau gan ddefnyddio'r amlen a ddarparwyd. Nid oes angen stamp arni. Peidiwch ag anfon nac ei gymryd i'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol
- wedi darparu unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth ychwanegol y credwch y byddai yn ein helpu i ddeall sut y mae eich anabledd, salwch neu gyflwr iechyd yn effeithio ar sut y gallwch wneud pethau o ddydd i ddydd.

Sut mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch, gallwn ddefnyddio'r wybodaeth ar gyfer unrhyw un o'n dibenion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- gwaith a hyfforddiant
- ymchwilio ac erlyn troseddau credydau treth
- polisi pensiynau preifat
- cynllunio ariannol ar gyfer ymddeoliad

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan bartïon eraill am unrhyw un o'n dibenion os yw'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny i wirio'r wybodaeth rydych yn ei darparu a gwella ein gwasanaeth. Efallai y byddwn hefyd yn rhoi gwybodaeth amdanoch i sefydliadau eraill os yw'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny, er enghraifft i ddiogelu yn erbyn trosedd.

I gael mwy o wybodaeth am ein dibenion, y ffordd rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol ar gyfer y dibenion hyn a'ch hawliau gwybodaeth, yn cynnwys sut i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth, gweler **Siarter Gwybodaeth Bersonol DWP** ar **GOV.UK**

Beth sy'n digwydd nesaf

Dychwelwch eich ffurflen wedi'i chwblhau at y Gwasanaeth Ymgynghorol Asesiad Iechyd yn yr amlen amgaeedig. Efallai y bydd y Gwasanaeth Ymgynghorol Asesiad Iechyd yn cysylltu â chi i drefnu apwyntiad wyneb yn wyneb i chi gyda gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol.

Triniaeth cancer – I’w gwblhau gan Weithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol sy’n ymwybodol o’ch cyflwr. Efallai mai dyma’ch meddyg teulu (a all godi ffi), meddyg ysbyty neu nyrs glinigol.

Mae’r wybodaeth a ddarperir gennych ar y dudalen hon yn bwysig gan y bydd yn ein helpu i wneud penderfyniad cyflym am gais Credyd Cynhwysol eich claf.

Mae’r dudalen hon yn ymwneud â chleifion sy’n cael, yn aros am neu sy’n gwella o gemotherapi, triniaeth fiolegol/imiwnotherapi, triniaeth hormonaidd, therapi wedi’i dargedu neu driniaeth radiotherapi, ar gyfer cancer

Llenwch weddill y dudalen hon. Os hoffech gael mwy o wybodaeth am Gredyd Cynhwysol, ewch i www.gov.uk/credyd-cynhwysol

Manylion y diagnosis cancer

Dylech gynnwys:

- math a lleoliad
- cyfnod
- unrhyw ddiagnosis cysylltiedig

Manylion y driniaeth

Dylech gynnwys:

- trefn
- parhad disgwyliedig

Ydy eich claf:

(Ticiwch fel y bo’n briodol)

Yn eich barn chi, a yw’n debygol bod effaith y driniaeth yn cael neu a fydd yn cael sgîl-ffeithiau sy’n cyfyngu ar waith?

Yn eich barn chi, pa mor hir y byddech yn disgwyl i’r sgîl-ffeithiau hyn parhau?

yn aros neu’n cael cemotherapi, triniaeth fiolegol/ imiwnotherapi, triniaeth hormonaidd, therapi wedi’i dargedu neu driniaeth radiotherapi, ar gyfer cancer?

yn gwella (ar ôl cwblhau’r driniaeth) o gemotherapi, triniaeth fiolegol/imiwnotherapi, triniaeth hormonaidd, therapi wedi’i dargedu neu driniaeth radiotherapi, ar gyfer cancer? Ticiwch os oes disgwyliad parhaus o adferiad pellach neu disgwyliad o welliant.

Na

Ydy Yn eich barn chi, a fydd y sgîl-ffeithiau yn cyfyngu ar bob math o waith?

Na

Bydd

Eich Manylion:

Enw

Stamp meddygfa, ysbyty neu fanylion cyfeiriad:

Teitl y swydd a chymwysterau

Llofnod

Dyddiad